



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

### **Bartneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Aberystwyth**

**Yr Ysgol Addysg, Sefydliad y Celfyddydau a'r Dyniaethau,  
P5, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth,  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 3UX**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a  
Hyfforddiant yng Nghymru**

## **Ynglŷn â Phartneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Aberystwyth**

Mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Aberystwyth yn cynnwys Prifysgol Aberystwyth, sy'n gweithio mewn partneriaeth â chwe ysgol arweiniol a 59 o ysgolion partneriaeth sydd wedi'u lleoli ledled Cymru. Yn y Brifysgol, mae Partneriaeth AGA Aberystwyth yn rhan o'r Ysgol Addysg.

Mae'r bartneriaeth yn darparu un rhaglen AGA gyda dau lwybr, wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o fis Medi 2019:

- TAR Cynradd gyda Chyfoethogi Uwchradd
- TAR Uwchradd gyda Chyfoethogi Cynradd

O fewn y llwybr Uwchradd, gall athrawon dan hyfforddiant astudio'r pynciau canlynol: bioleg, cemeg, ffiseg, drama, Saesneg, daearyddiaeth, hanes, mathemateg, ieithoedd tramor modern a'r Gymraeg.

Mae'r rhaglen yn gwrs blwyddyn, amser llawn, ac yn cael ei chynnig yn ddwyieithog.

Mae 30 o fyfyrwyr yn dilyn y llwybr TAR Cynradd, y mae wyth ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 21 o fyfyrwyr yn dilyn y llwybr TAR Uwchradd, y mae pump ohonynt yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb

Mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol Athrawon Aberystwyth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer ei darpariaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd datblygu athrawon y dyfodol sy'n ymarferwyr arloesol, creadigol, ac yn ystyriol o dystiolaeth. Mae arweinwyr a staff wedi gwneud cynnydd da i ymgysylltu ag ymchwil mewn AGA a chydweithio mewn ymchwil ac ymholi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r gwaith hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at feithrin capasiti ymchwil a thystiolaeth ar draws y sector addysg yng Nghymru.

Ers iddi ddechrau, mae'r bartneriaeth wedi wynebu heriau nodedig, fel pandemig COVID-19 a chyfraddau recriwtio myfyrwyr is na'r disgwyl. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae wedi bod yn rhy araf i flaenoriaethu meysydd pwysig o'i gwaith sydd angen eu gwella. Nid yw gormod o addysgu, mentora a gormod o'r profiadau dysgu a ddarperir gan y bartneriaeth yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i wneud cynnydd digonol.

Mae strwythurau a phrosesau arweinyddiaeth y bartneriaeth yn adlewyrchu'n briodol gyfrifoldeb ar y cyd y brifysgol a'i hysgolion partner arweiniol ar gyfer y rhaglen. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae partneriaid yn ansicr ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn chwarae rôl fach iawn mewn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Mae cyfathrebu ar draws y bartneriaeth yn wael ac nid yw rôl ysgolion partneriaeth arweiniol, yn benodol, wedi'i danddatblygu'n sylweddol. Mae hyn yn golygu bod y bartneriaeth wedi cael trafferth cyflwyno'r rhaglen yn unol â'r bwriad. At ei gilydd, ceir diffyg cydlyniad rhwng yr agweddau ar y ddarpariaeth yn y brifysgol ac mewn ysgolion. Mae hyn, ynghyd â diffygion pwysig mewn mentora ac addysgu, yn ei gwneud yn anodd i fyfyrwyr ddatblygu eu gallu i gysylltu theori ag arfer, a defnyddio'r wybodaeth hon i fyfyrion feirniadol ar eu haddysgu, a'i wella.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn datblygu agweddau proffesiynol cryf a dealltwriaeth gadarn o gyfrifoldebau bod yn athro. Mae eu hymgysylltiad mewn sesiynau sy'n cael eu haddysgu yn y brifysgol yn dda, ac maent yn gwerthfawrogi eu profiadau mewn ysgolion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae anawsterau â lleoliad, amseriad a gofynion dysgu yn yr ysgol a heriau ag agweddau ar eu gwaith academaidd wedi cael effaith negyddol ar les myfyrwyr.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi rhoi prosesau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro ansawdd a chysondeb profiadau myfyrwyr mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'r drefn o ran gweithredu'r rhain yn wan. Mae gan y bartneriaeth ddealltwriaeth gyfyngedig o hunanwerthuso ar gyfer gwella, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar adborth allanol i wneud newidiadau ac arwain y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn wendidau pwysig mewn arweinyddiaeth a rheolaeth.

## Argymhellion

- A1 Gwella prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel eu bod yn nodi'n fanwl gywir yr agweddau ar waith y bartneriaeth sydd angen eu gwella fwyaf i sicrhau cynnydd myfyrwyr
- A2 Cryfhau gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys rôl yr ysgol arweiniol, ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth ar y cyd
- A3 Gwella ansawdd addysgu a mentora ar draws y bartneriaeth
- A4 Sicrhau bod y rhaglen yn darparu ystod sy'n briodol o gydlynus, integredig a graddol o brofiadau sy'n datblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn ddigon manwl ac eang
- A5 Mynd i'r afael â phroblemau sy'n cael effaith negyddol ar les myfyrwyr, a chryfhau'r cyfraniad a wnânt at werthuso a gwella'r rhaglen

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y bartneriaeth yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn ailrolygu'r ddarpariaeth ymhen rhyw flwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu:

Mae mwyafrif o athrawon dan hyfforddiant yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu rhaglen addysg gychwynnol athrawon. Yn gyffredinol, mae cynnydd yn eu hastudiaethau academaidd yn gryfach nag yn eu profiadau mewn ysgolion, lle mae'n anghyson. Mewn tua hanner yr achosion, mae cynnydd athrawon dan hyfforddiant yn aml yn arafu, yn aros yr un fath neu'n llithro'n ôl oherwydd mentora gwan mewn o leiaf un o'u profiadau ysgol. O ganlyniad, mae cyflawniad lleiafrif ohonynt yn gyfyngedig. Nid yw ychydig o fyfyrwyr, y barnwyd bod y bartneriaeth ar y trywydd iawn i fodloni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC), yn gadarn ar draws pob un o'r safonau, ac nid ydynt yn barod i ysgwyddo dyletswyddau athrawon newydd gymhwyso.

At ei gilydd, mae cynnydd athrawon dan hyfforddiant mewn dysgu yn gryfach ar y llwybr cynradd nag ar y llwybr uwchradd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt sy'n hyfforddi i fod yn athrawon cynradd yn meddu ar ymwybyddiaeth dda o ddulliau addysgu a dysgu sy'n briodol i'r ystod oedran 3 i 11 oed, gan gynnwys dealltwriaeth glir o nodweddion darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion iau. Gallant esbonio agweddau ar arfer addysgegol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddisgrifio strategaethau i addysgu mewn gwahanol feysydd dysgu a phrofiad. Mae ychydig o fyfyrwyr cynradd

yn dangos ymwybyddiaeth gref o gyfyngiadau dulliau addysgu amrywiol, a sut mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig wrth gynllunio ar gyfer dysgu disgyblion.

Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant uwchradd yn meddu ar wybodaeth gadarn am y pynciau maent yn eu hastudio i'w haddysgu. Mae mwyafrif ohonynt yn deall pwysigrwydd defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgu ac yn rhannu enghreifftiau defnyddiol gyda'u cyfoedion o sut maent wedi cyflawni hyn wrth addysgu eu pwnc. Fodd bynnag, mae dysgu a chynnydd myfyrwyr uwchradd yn amrywio gormod rhwng pynciau. Yn gyffredinol, oherwydd diffygion yn strwythur y rhaglen a chynnwys y modiwlau, nid yw athrawon dan hyfforddiant bob amser yn datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn raddol nac yn systematig.

Mewn sesiynau a addysgir, mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn ymgysylltu'n frwdfrydig ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. Mae lleiafrif ohonynt yn gofyn cwestiynau perthnasol i ymestyn eu dealltwriaeth o addysgeg pwnc, er enghraifft sut i wneud cysyniadau mathemategol yn fwy hygyrch i ddisgyblion yn y sector oedran uwchradd. Maent yn myfyrio'n briodol ar eu profiadau yn yr ysgol trwy gysylltu theori ag arfer, er enghraifft wrth drafod ymchwil am wahanol ddulliau i ddatblygu arferion addysgu a dysgu cynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn hyderus a huawdl wrth rannu eu syniadau a'u barn. Mae ychydig ohonynt yn rhoi ymatebion ystyriol i faterion cyfoes, fel amlygrwydd crefydd a ffydd yn y cwricwlwm. Maent yn ystyried sut gallent reoli gwahanol safbwyntiau rhieni tuag at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn sensitif. Mae ychydig ohonynt sydd â medrau beirniadol uwch hefyd yn defnyddio'u dealltwriaeth o ymchwil i feddwl am sut mae cysylltu dysgu ar draws pynciau yn gallu cryfhau dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau iaith a mathemategol, er enghraifft. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau a addysgir, mae myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth yn oddefol ac nid ydynt yn datblygu eu meddwl beirniadol yn ddigonol.

Yn gyffredinol, mae myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth briodol o ofynion gorfodol y cwricwlwm trwy elfennau a addysgir y rhaglen a'u profiadau ysgol. Trwy arsylwi ac addysgu yn eu sector oedran anarbenigol yn ystod eu profiad ysgol 'cyfoethogi', mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth addas o'r continwmm dysgu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 16 oed. Maent yn dod yn ymwybodol o wahanol ddulliau addysgegol yn eu sector oedran anarbenigol, fel pwysigrwydd dysgu yn seiliedig ar chwarae ar gyfer disgyblion iau, neu addysgegau sy'n benodol i bwnc sy'n galluogi disgyblion hŷn i ddysgu'n llwyddiannus.

Yn ystod y gweithgareddau cyfoethogi hyn, mae ychydig iawn o fyfyrwyr cynradd yn datblygu eu gwybodaeth am ddilyniant iaith yn dda, er enghraifft trwy gynllunio dilyniannau o wersi Cymraeg ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 7 ac 8. Mae ychydig o fyfyrwyr uwchradd yn defnyddio'u gwybodaeth am addysgegau perthnasol o fewn eu pwnc yn llwyddiannus i ddatblygu addysgu ieithoedd rhyngwladol a'r dyniaethau yn y sector cynradd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw llawer o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd digonol yn ystod y profiad cyfoethogi. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer myfyrwyr uwchradd, lle mae eu haddysgu'n tueddu i fod mewn agwedd gul o'r cwricwlwm, gyda chyfle prin ar gyfer addysgu dosbarth cyfan.

Mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu gwybodaeth briodol am nodweddion allweddol Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft cynllunio cyd-destunau dysgu dilys ar gyfer disgyblion o fewn ac ar draws meysydd dysgu a phrofiad. Fodd bynnag, yn aml, nid yw dealltwriaeth athrawon dan hyfforddiant o gwricwlwm wedi'i yrru gan ddiben yn gadarn ac mae eu harfer yn adlewyrchu camdybiaethau, fel yr angen i gynllunio ar gyfer un neu fwy o'r pedwar diben ym mhob gwrs. Atgyfnerthir y camdybiaethau hyn pan fydd mentoriaid mewn ysgolion a thiworiaid y brifysgol yn gosod targedau datblygiadol amhriodol iddynt wneud hynny.

Yn ystod y rhaglen, mae mwyafrif o athrawon dan hyfforddiant yn cynllunio'n addas ar gyfer cynnydd disgyblion mewn dilyniant o wersi sy'n elwa ar gynlluniau dysgu tymor canolig ysgolion. Mae ychydig iawn o fyfyrwyr yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol arbenigol i awgrymu themâu ar gyfer y cwricwlwm. Maent yn cynllunio'u hunedau gwaith arloesol eu hunain sy'n ennyn diddordeb ac yn herio disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddysgu am lenyddiaeth Gothig ym Mlwyddyn 8 a theatr dechnegol yn ystod gwrsi drama ym Mlwyddyn 10. Yn yr achosion prin iawn, lle mae addysgu myfyrwyr yn hynod effeithiol, maent yn dangos hyblygrwydd wrth gynllunio i ymateb i anghenion dysgu disgyblion. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw myfyrwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon da i ddysgu a phrofiadau blaenorol disgyblion, nac yn ystyried nodau dysgu tymor hirach wrth gynllunio gwrsi.

At ei gilydd, mae myfyrwyr yn gydwybodol wrth gynllunio'u gwrsi. Pan fydd eu mentoriaid ysgol yn rhoi'r ymreolaeth iddynt fod yn greadigol, mae llawer ohonynt yn aml yn nodi cyd-destunau dychmygus a diddorol ar gyfer dysgu ac yn paratoi adnoddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes gan ryw hanner yr athrawon dan hyfforddiant ddealltwriaeth ddigon da o sut i nodi amcanion a meini prawf clir a pherthnasol ar gyfer dysgu'r disgyblion. Mae'r rhain yn aml yn rhy eang ac yn canolbwyntio ar y gweithgareddau y bydd disgyblion yn eu cwblhau, yn hytrach na'r hyn y dylai disgyblion ei ddysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i asesu cynnydd disgyblion ac yn golygu eu bod yn canolbwyntio ar gael disgyblion i weithio'n ddiwyd yn ystod gwrsi, yn hytrach na monitro a dyfnhau eu dysgu.

Mae bron pob un o'r athrawon dan hyfforddiant yn sefydlu perthnasoedd gweithio proffesiynol cadarnhaol gyda disgyblion a staff ysgolion. Mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n effeithiol, gan roi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir i ddisgyblion am eu tasgau. Maent yn rheoli'r amgylchedd dysgu'n dda ac yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad disgyblion. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn ei chael yn anodd sefydlu arferion effeithiol yn yr ystafell ddosbarth neu reoli lefel isel o darfu.

Mae mwyafrif o fyfyrwyr yn datblygu medrau holi cadarn, er enghraifft i wirio dealltwriaeth disgyblion, tra bod ychydig iawn ohonynt yn gofyn cwestiynau heriol a chryno sy'n procio ac yn ymestyn meddwl disgyblion a'u defnydd o eirfa yn fedrus. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn gofyn cwestiynau sylfaenol nad ydynt yn annog disgyblion i feddwl yn fanwl am eu dysgu neu symud eu dysgu ymlaen. Mae hyn yn aml oherwydd nad ydynt yn glir am y dysgu bwriadedig, neu nid ydynt yn meddwl yn ddigon gofalus am fathau o gwestiynau a thechnegau holi, wrth gynllunio'u gwrsi.

Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn defnyddio ystod addas o strategaethau addysgu a dysgu, sy'n briodol i gynnwys y wers, y pwnc neu'r sector oedran. Fodd

bynag, mae ychydig o athrawon dan hyfforddiant yn ei chael yn anodd cynnal cyflymdra addas i'w haddysgu neu'n strwythuro'r dysgu yn ddigon da. O ganlyniad, mae disgyblion yn colli diddordeb yn eu tasgau. Yn ychwanegol, nid yw ychydig o fyfyrwyr uwchradd yn meddu ar wybodaeth bynciol neu ddealltwriaeth ddigon cryf o addysgu effeithiol yn eu pwnc. Mae eu hamrywiaeth o ddulliau addysgu yn rhy gul, ac o ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gallu cefnogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Nid yw mwyafrif o athrawon dan hyfforddiant yn herio disgyblion yn briodol yn eu dysgu. Fel rheol, nid ydynt yn darparu sgaffaldio digonol ar gyfer disgyblion llai abl neu'n gosod y dysgu'n ddigon uchel ar gyfer y rhai sy'n fwy abl. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn ddigon da. Yn rhy aml, mae gwerthusiadau athrawon dan hyfforddiant o'u haddysgu yn ddisgrifiadol ac arwynebol. Anaml y maent yn ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd â'u dysgu neu'r effaith a gaiff eu haddysgu ar gynnydd disgyblion. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt gynllunio'n effeithiol ar gyfer camau nesaf disgyblion a'u datblygiad eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau rhifedd a medrau digidol addas. Mae llawer ohonynt yn fodolau rôl da ar gyfer disgyblion ac yn defnyddio terminoleg pwnc yn briodol yn eu haddysgu. Fodd bynnag, nid yw medrau llythrennedd ychydig o'r athrawon dan hyfforddiant eu hunain yn ddigon cryf. Maent yn gwneud camgymeriadau mynych wrth ffurfio brawddegau ac mewn atalnodi yn eu haseiniadau ysgrifenedig, a chamgymeriadau sillafu wrth roi adborth ysgrifenedig ar waith disgyblion. At ei gilydd, megis dechrau datblygu y mae gallu athrawon dan hyfforddiant i gynorthwyo disgyblion i gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm, a chynllunio ar ei gyfer.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau Cymraeg o'u manau cychwyn. Mae myfyrwyr sy'n dysgu'r iaith o'r newydd yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau a addysgir ac yn awyddus i wella'u hynganiad a'u medrau cyfathrebu geiriol. Mae'r rhai sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf yn defnyddio arddull fwy ffurfiol pan fo'n briodol, er enghraifft wrth gynllunio cyflwyniad i lywodraethwyr ysgol ar agwedd benodol ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae lleiafrif o fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai â galluoedd datblygedig yn y Gymraeg a osodir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion, ac yn gwneud defnydd cyfyngedig o'r iaith wrth addysgu.

Yn eu haseiniadau academaidd, mae llawer o fyfyrwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o destunau addysgol priodol i'w cynorthwyo i ystyried gwahanol ddulliau addysgegol. Maent yn creu cysylltiadau perthnasol rhwng damcaniaethau addysgol a'u profiadau cynnar yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft wrth ddarparu beirniadaeth am theori dysgu lluniadaethol mewn cyflwyniad fideo. Mae lleiafrif o fyfyrwyr yn llunio aseiniadau o ansawdd uchel, lle maent yn beirniadu ffynonellau'n drylwyr, gan elwa ar ddarllen deunyddiau eang, fel cyfnodolion addysgol, testunau arloesol a pholisi addysg cyfredol. Maent yn rhoi dadleuon argyhoeddiadol, gan nodi cyfyngiadau yn ymchwil pobl eraill ac yn myfyrio'n llwyddiannus ar eu harferion addysgu a'u damcaniaethau dysgu sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, caiff ychydig o fyfyrwyr anhawster trefnu eu hymatebion ysgrifenedig a chyfleu eu syniadau'n glir. Yn ychwanegol, maent yn tueddu i ddibynnu'n ormodol ar ychydig o destunau tra hysbys neu destunau wedi dyddio sy'n canolbwyntio ar ymagweddau generig at addysgeg,

ac anaml y maent yn archwilio ystod eang o gyhoeddiadau neu erthyglau cyfnodolion perthnasol a chyfoes i ddyfnhau eu dealltwriaeth o addysgu pwnc.

At ei gilydd, mae medrau beirniadol athrawon dan hyfforddiant yn eu haseiniadau ac yn ystod sesiynau a addysgir yn y brifysgol yn gryfach nag yn eu gwerthusiadau mewn ysgolion. Ychydig o athrawon dan hyfforddiant yn unig sy'n defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o ddarllen ac ymchwil i lywio a ffurfio'u harfer yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd. Anaml y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn creu cysylltiadau rhwng theori ac arfer i'w helpu i fyfyrwyr ar eu haddysgu, a'i ddatblygu, yn ystod eu profiadau ysgol, oni bai ei bod yn amlwg yn ofynnol iddynt wneud hynny fel rhan o aseiniad.

### **Lles ac agweddau at ddysgu:**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon dan hyfforddiant yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd proffesiynol buddiol sydd ganddynt â'u tiwtoriaid a'u mentoriaid. Mae llawer ohonynt yn ymwybodol o'r cymorth bugeiliol sydd ar gael trwy systemau'r brifysgol a'r rheiny mewn ysgolion, ac yn eu gwerthfawrogi. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth da yn ystod eu profiad mewn ysgolion ac yn y brifysgol, gan werthfawrogi'r cyswllt rheolaidd a gânt â'u tiwtoriaid a'u mentoriaid.

Mae mwyafrif o fyfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth addas o sut i reoli cydbwysedd iach rhwng gwaith a bywyd. Maent yn addasu'n briodol yn ôl gofynion y rhaglen a'r proffesiwn addysgu, ac yn meithrin eu gwydnwch, gan gynnwys rheoli pwysau baich gwaith. Mae tiwtoriaid, ynghyd â staff mewn ysgolion arweiniol, yn darparu cyfleoedd buddiol i athrawon dan hyfforddiant fanteisio ar sesiynau rhithwir galw i mewn lles bob wythnos neu gyfarfodydd dal i fyny mewn clwstwr. Fodd bynnag, mae lleiafrif o fyfyrwyr yn ei chael yn rhy heriol cydbwyso gofynion paratoi i addysgu a bodloni terfynau amser aseiniadau. Yn aml, nid yw'r myfyrwyr hyn yn teimlo'u bod yn cael cymorth da, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu lles.

Yn y brifysgol ac mewn ysgolion, mae llawer o athrawon dan hyfforddiant yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin geiriol a chorfforol. Mae llawer ohonynt yn teimlo'u bod yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu parchu gan staff y brifysgol a staff ysgolion. Maent yn deall yr effaith a gaiff eu hymddygiad eu hunain ar ymddygiad disgyblion, ac yn datblygu dealltwriaeth briodol o gyfrifoldebau proffesiynol bod yn athro. Mae llawer ohonynt yn cydnabod yr effaith a gaiff lles y disgyblion eu hunain ar eu gallu i ddysgu, ac yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r ystod o strategaethau a dulliau a ddefnyddir gan ysgolion i gefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r gweithdrefnau a'r gofynion perthnasol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc. Maent yn cymhwyso polisiâu ysgolion ar iechyd a diogelwch yn dda. Ar ôl mynychu dysgu proffesiynol perthnasol, er enghraifft ar sut i gadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, maent yn deall gweithdrefnau diogelu ysgolion yn briodol.

Mae llawer o athrawon dan hyfforddiant o'r farn fod y bartneriaeth yn dechrau gwranddo ar eu barn ac yn credu eu bod yn dylanwadu ar ychydig o benderfyniadau pwysig. Er enghraifft, o ganlyniad i adborth, mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno templed amgen buddiol ar gyfer cynllunio gwersi. Fodd bynnag, mae effeithiau



hysbysu'n hwyr am leoliadau profiad ysgol ac amseroedd teithio hir yn y tymor cyntaf, ynghyd ag anawsterau llety a chydbwysio gofynion y rhaglen, wedi cael effaith negyddol ar wydnwch a lles lleiafrif o fyfyrwyr.

Yn ddiweddar, penodwyd cynrychiolwyr athrawon dan hyfforddiant fel rhan o'r cyngor staff a myfyrwyr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ansicr ynglŷn â'u rôl a sut i'w chyflawni'n effeithiol. Yn ddiweddar, maent wedi trafod cynllun gweithredu'r bartneriaeth sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar y rhaglen sy'n effeithio ar les athrawon dan hyfforddiant. Mae hyn wedi arwain at newid cadarnhaol yn y polisi ar leoliadau profiad ysgol, sy'n golygu bod hysbysiad mwy amserol ar gyfer profiadau ysgol terfynol. I lawer o athrawon dan hyfforddiant, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles yn y tymor byr.

Yn gyffredinol, mae athrawon dan hyfforddiant yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ennill profiad ysgol y tu hwnt i'w meysydd arbenigedd mewn sector oedran gwahanol trwy'r lleoliad cyfoethogi. Fodd bynnag, oherwydd hyd ac amseriad y profiad hwn hanner ffordd trwy'r rhaglen, mae ychydig ohonynt yn rhy orbryderus ac nid oes gan lawer ohonynt hyder yn eu medrau addysgu. O ganlyniad, nid ydynt yn teimlo'n ddigon parod i gydbwysio addysgu ar gyfer cyfran uwch o'r wythnos yn eu sector oedran arbenigol ar eu lleoliad terfynol â therfynau amser aseiniadau.

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn datblygu agweddau proffesiynol cadarnhaol yn y brifysgol ac mewn ysgolion. Yn gyffredinol, mae eu presenoldeb a'u prydoldeb yn dda. Maent yn ymgysylltu'n dda mewn darlithoedd, yn dal ati i ganolbwyntio, ac yn rhannu eu meddyliau a'u profiadau yn ystyriol â'u tiwtoriaid a'u cyfoedion. Er enghraifft, yn ystod 'wythnosau myfyrio', mae athrawon dan hyfforddiant yn gwerthfawrogi cyfleoedd i drafod eu cynnydd ac maent yn siarad yn agored am yr agweddau ar eu harfer ystafell ddosbarth a'u hastudiaethau academaidd y mae angen iddynt weithio arnynt. Mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n dda ag adborth gan eu tiwtoriaid ac yn defnyddio adborth ysgrifenedig yn briodol i wella agweddau ar eu hysgrifennu academaidd neu fedrau cyflwyniadol ar gyfer aseiniadau dilynol. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol, er enghraifft i gywiro'u hysgrifennu.

Yn ystod eu profiadau ysgol, mae llawer o fyfyrwyr yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â'u mentoriaid a'u disgyblion. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at wella'u harfer eu hunain ac ymrwymiad proffesiynol i ofyn am adborth a gweithredu ar gyngor. Mae llawer o fyfyrwyr yn myfyrio'n briodol ar eu profiadau addysgu eu hunain, ac yn gweithio ochr yn ochr â'u mentoriaid i osod targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd myfyrdodau beirniadol myfyrwyr yn rhy amrywiol, ac ym mwyafrif yr achosion, nid ydynt yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith eu haddysgu ar gynnydd disgyblion. Mewn ychydig o achosion, ailadroddir targedau gwella droeon yn ystod profiad ysgol, ac nid yw myfyrwyr yn eu defnyddio'n ddigon da i wneud digon o gynnydd yn eu haddysgu.

Mae llawer o fyfyrwyr yn deall pwysigrwydd ymchwil ac ymholi i ddatblygu eu haddysgu. Maent yn ymgysylltu'n ystyriol â thasgau ymchwil weithredu a wneir yn yr ysgol, ac yn yr achosion gorau, yn cysylltu'r tasgau hyn ag agwedd ar eu haddysgu eu hunain sydd angen eu cryfhau. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i b'un a yw strategaethau addysgu sy'n hoelio sylw disgyblion iau ar ddechrau gwerau yn helpu datblygu eu medrau gwrando a siarad. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes gan

fyfyrwyr ddealltwriaeth gadarn o sut gall eu gwaith academaidd gefnogi eu haddysgu, ac o ganlyniad, maent yn colli cyfleoedd i wneud gwelliannau ystyrlon i ansawdd eu harfer.

Mae mwyafrif o fyfyrwyr yn cymryd rhan weithredol mewn bywyd ysgol, er enghraifft trwy fynychu cyfarfodydd staff neu gyfrannu at glybiau allgyrsiol. Ambell dro, maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft trwy rannu eu harbenigedd o'u gwirfodd ag athrawon eraill ym meysydd y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn colli cyfleoedd gwerthfawr i rannu eu dysgu proffesiynol a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ysgol ochr yn ochr â chydweithwyr. Mae hyn yn aml oherwydd bod myfyrwyr yn teithio pellteroedd hir i'w lleoliadau ysgol, ac oddi yno.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu:**

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu rhaglen sydd â'r nod o ddarparu profiadau addysgu ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd i fyfyrwyr. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'n cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn ddigon da i ddyfnhau eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn gydlynus neu'n raddol. Er enghraifft, ni chaiff strwythur modiwlau a'u cynnwys eu cynllunio'n ddigon gofalus, gan arwain at ormod o ailadrodd a mewnbynnau ar wahân. Yn ychwanegol, nid yw myfyrwyr yn y sector uwchradd bob amser yn elwa ar gyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu eu haddysgedd a'u medrau sy'n benodol i bwnc.

Gweithiodd y brifysgol yn addas â'i hysgolion partner wrth gynllunio'r rhaglen yn wreiddiol. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfraniadau a wna ysgolion arweiniol at gyflwyno a pharhau i gyd-greu'r cwrs a addysgir. Yn gyffredinol, nid yw ysgolion partneriaeth yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon da o'r rhaglen i gynorthwyo myfyrwyr i wneud cynnydd yn eu dysgu.

Ceir cydbwysedd addas rhwng cynnwys a addysgir a phrofiad ysgol. Mae llawer o fyfyrwyr o'r farn fod y profiad ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu dulliau addysgu. Ar ddechrau'r rhaglen, yn y sesiynau a addysgir yn y brifysgol, mae mwyafrif y tiwtoriaid yn rhoi mewnbwn ac adborth priodol i fyfyrwyr am fedrau cynllunio gwersi. Mae hyn yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddatblygu eu gwybodaeth am brosesau cynllunio ar gyfer addysgu a dysgu yn briodol yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn eu datblygiad. Gyda chymorth tiwtoriaid, mae'r mwyafrif ohonynt yn ystyried sut i wella'u cynlluniau, trwy fyfyrwyr ar b'un a yw cynnwys y wers y maent wedi'i chynllunio yn berthnasol i ddysgu'r disgyblion.

Mae'r cyfleoedd i fyfyrwyr brofi'r sectorau oedran cynradd ac uwchradd yn eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth gref o bontio effeithiol rhwng y sectorau hynny. Fodd bynnag, ni chaiff y profiad 'cyfoethogi' hwn ei gynllunio'n ddigon gofalus i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu medrau beirniadol, neu elwa ar fentora strwythuredig. At hynny, er bod mwyafrif o fyfyrwyr o'r farn fod y profiad cyfoethogi mewn sector y tu hwnt i'w harbenigedd nhw yn fuddiol, nid yw lleiafrif ohonynt yn teimlo'i fod yn cael ei ddarparu ar yr adeg fwyaf buddiol. Mae'r oedi rhwng eu profiad addysgu cyntaf a'u hail brofiad addysgu yn eu prif faes astudio yn aml yn niweidiol i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau myfyrwyr yn raddol.

Mae'r agweddau a addysgir ar y cwrs cynradd yn darparu cyfleoedd addas, ar y cyfan, i fyfyrwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu, yn enwedig o ddisgyblion iau. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae ansawdd y rhaglen a addysgir yn rhy amrywiol. Nid yw bob amser yn cefnogi cynnydd myfyrwyr ac nid yw'n adeiladu'n ddigon da ar eu dysgu nac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o arferion addysgu effeithiol. Yn ychwanegol, disgwylir i fyfyrwyr cynradd addysgu ar y cyd yn yr ystodau oedran tair i saith oed a saith i un ar ddeg oed trwy gydol eu profiad ysgol cyntaf. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i sefydlu arferion addysgu effeithiol mewn un sector oedran yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn y rhaglen.

Mae ffocws priodol ar ymchwil ac ymholi ym mwyafrif y rhaglen a addysgir. Fodd bynnag, ni chaiff myfyrwyr ddigon o gyfleoedd strwythuredig i gysylltu eu darllen a'u hymchwil â'u profiadau yn yr ysgol. Mae aseiniadau'n darparu cyfleoedd buddiol i fyfyrwyr fyfyrion ar ymchwil ac arfer, ond nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymwybodol o gynnwys y cwrs a addysgir. O ganlyniad, yn ystod eu lleoliadau ysgol, anaml y caiff myfyrwyr gyfleoedd gwerthfawr i gyfuno theori ac arfer.

Caiff 'wythnosau myfyrion' eu cynnwys trwy gydol y flwyddyn i ganiatáu cyfleoedd i fyfyrwyr ennill gwybodaeth newydd ac ystyried arfer mewn gwahanol leoliadau. Fodd bynnag, ni chaiff yr wythnosau hyn eu cynllunio'n strategol na'u cydlynu'n ddigon da, ac mae ansawdd y cyflwyno'n rhy amrywiol. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwella addysgu, gwybodaeth na medrau myfyrwyr. Mae mwyafrif o fyfyrwyr o'r farn eu bod yn cael eu cynnal yn rhy gynnar yn ystod y profiad ysgol, felly mae ganddynt brofiadau cyfyngedig i fyfyrion arnynt. Hefyd, prin yw'r cyfraniad a wna ysgolion arweiniol at gynllunio a chyflwyno wythnosau myfyrion.

Mae myfyrwyr yn elwa ar ychydig o gyfleoedd addas i ddeall gofynion gorfodol Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau cyhoeddus, ond ni chânt gyfle digonol i archwilio a dysgu am gynllunio'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae gan fwyafrif ohonynt ddealltwriaeth gyfyngedig o'r theori y tu ôl i Gwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, ni chaiff myfyrwyr ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o gynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, ac fe gaiff eu camdybiaethau, fel cynllunio ar gyfer y pedwar diben mewn ysgolion unigol, eu hatgyfnerthu'n aml yn ystod sesiynau a addysgir a phrofiadau ysgol.

Mae'r bartneriaeth yn cefnogi datblygiad priodol medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y myfyrwyr eu hunain trwy sesiynau yn y brifysgol sy'n ymdrin â thestunau perthnasol a sesiynau 'galw i mewn' opsiynol, lle gall myfyrwyr ofyn am fwy o arweiniad unigoledd. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda myfyrwyr sy'n rhugl yn yr iaith. Mae'r sesiynau trochi a chyfoethogi yn helpu dysgwyr Cymraeg i ddatblygu a gwella'u medrau iaith yn dda. I fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, mae sesiynau 'Gloywi iaith' yn darparu cymorth buddiol i fireinio'u medrau llafaredd ac ysgrifenedig.

At ei gilydd, nid yw'r bartneriaeth yn adolygu ansawdd nac effaith cwricwlwm y rhaglen yn ddigon da. Mae'n dechrau ystyried adborth gan fyfyrwyr am agweddau ar y rhaglen, ond ni chaiff y wybodaeth hon ei gwerthuso yn sgil tystiolaeth uniongyrchol arall am addysgu a dysgu. Nid oes gan y bartneriaeth ymagwedd ddigon strategol at gynllunio a datblygu'r cwricwlwm. Nid yw wedi bod yn ddigon effeithiol wrth nodi nac ymateb i ddiffygion pwysig, yn enwedig yn yr agwedd a addysgir ar y rhaglen.

Ar draws y bartneriaeth, mae ansawdd addysgu yn y brifysgol a mentora mewn ysgolion yn rhy amrywiol. Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid yn defnyddio'u gwybodaeth am bwnc a sector i ddatblygu hyder a chymhwysedd myfyrwyr yn briodol. Yn y sesiynau mwyaf effeithiol prin, mae hyn yn cynnwys cysylltu theori ac arfer yn dda, er enghraifft wrth ddatblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ddysgu sylfaen a'i addysgegau cysylltiedig.

Mae gan bron bob un o'r tiwtoriaid berthnasoedd gweithio proffesiynol da gydag athrawon dan hyfforddiant. Mae llawer ohonynt yn creu amgylcheddau dysgu anogol sy'n annog myfyrwyr i fod yn ymholgar a defnyddio camgymeriadau yn gyfleoedd i ddysgu. Yn yr achosion gorau prin, mae hyn yn hyrwyddo ymgysylltu cryf a thrafodaeth broffesiynol, gan gynnwys nodi agweddau ar wersi athrawon dan hyfforddiant i wneud pwyntiau dysgu perthnasol.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn herio myfyrwyr i fyfyrion feirniadol ar agweddau ar eu haddysgu sy'n helpu cryfhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau llwyddiannus, fel trafodaethau wedi'u harwain gan fyfyrwyr a gwaith grŵp, i ddatblygu gwybodaeth bynciol ac addysgegol myfyrwyr, ac yn modelu strategaethau y gallai myfyrwyr eu defnyddio yn eu haddysgu eu hunain. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw tiwtoriaid yn hyrwyddo trafodaethau neu ymgysylltiad tiwtoriaid yn ddigon da. Yn y sesiynau hyn, mae tiwtoriaid yn syml yn cyflwyno gwybodaeth i fyfyrwyr ac yn gofyn cwestiynau rhethregol yn bennaf. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu medrau beirniadol. Ambell dro, yn enwedig ar y llwybr uwchradd, mae niferoedd isel y myfyrwyr mewn sesiynau yn effeithio ar ymagweddau tiwtoriaid at addysgu ac yn ei gwneud yn anodd i fyfyrwyr fyfyrion feirniadol ar eu profiadau a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Mewn lleiafrif o sesiynau, mae tiwtoriaid yn defnyddio ymchwil yn dda i lywio'u cynllunio, gan greu cysylltiadau buddiol rhwng egwyddorion addysgegol, fel cynllunio cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu, a sut beth gallai hyn fod ar gyfer gwahanol grwpiau oedran mewn ysgol gynradd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r arfer hon yn rhy amrywiol. Mae ychydig o diwtoriaid yn gwneud cyfeiriadau arwynebol yn unig at ymchwil neu lenyddiaeth berthnasol. Yn ychwanegol, nid yw mwyafrif o diwtoriaid yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i fyfyrwyr ystyried gwahanol ymagweddau at addysgu a dysgu neu ddyfnhau eu dealltwriaeth o addysgegau sy'n benodol i bwnc.

Mae'r bartneriaeth yn darparu cyfleoedd addas i fyfyrwyr greu cysylltiadau rhwng theori a'u profiadau ysgol yn eu gwaith academaidd. Mae adborth y rhan fwyaf o diwtoriaid ar aseiniadau yn ymwneud yn briodol â'r meini prawf asesu, ac yn yr achosion gorau, yn nodi cryfderau myfyrwyr ond hefyd yn herio meddwl myfyrwyr ac yn eu sbarduno i ystyried cysylltiadau ag ymchwil. Fodd bynnag, mae'r arfer hon yn rhy amrywiol. Mewn ychydig o achosion, mae sylwadau naill ai'n canolbwyntio ar agweddau cadarnhaol ar y gwaith yn unig neu nid ydynt yn ddigon manwl gywir i helpu myfyrwyr i ddeall sut gallent wella.

Mae llawer o fentoriaid ac uwch fentoriaid wedi sefydlu perthnasoedd gweithio da gydag athrawon dan hyfforddiant ac mae ganddynt awydd diffuant i'w gweld yn llwyddo yn eu profiadau ysgol. Mae'r adborth mwyaf effeithiol gan fentoriaid i fyfyrwyr yn hwyluso deialog broffesiynol adeiladol a chefnogol sy'n eu hannog i fyfyrion ar eu haddysgu. Mae'n darparu ffocws da ar gynnydd myfyrwyr dros gyfnod, yn cyfeirio at

nodau datblygiadol blaenorol ac yn nodi gwelliannau yn arfer myfyrwyr. Mae'r adborth diagnostig ac adeiladol hwn yn annog myfyrwyr ac yn eu helpu i ganolbwyntio ar agweddau pwysig, fel addysgeg, dilyniant mewn dysgu a'r cwricwlwm.

Mae lleiafrif o fentoriaid yn annog myfyrwyr i hunanwerthuso cyn derbyn adborth. Fodd bynnag, mae amrywioldeb sylweddol yn ansawdd yr adborth llafar ac ysgrifenedig i athrawon dan hyfforddiant. Yn rhy aml, nid yw sylwadau mentoriaid yn fanwl ac nid ydynt yn rhoi cyfarwyddyd priodol i fyfyrwyr wella'u harfer. Mewn lleiafrif o achosion, caiff deialog broffesiynol ei harwain yn ormodol gan fentoriaid. Nid yw'n herio myfyrwyr i fyfyrion feirniadol na dyfnhau eu dysgu i'w helpu i gysylltu theori ag arfer neu ganolbwyntio ar nodi effaith arfer athrawon dan hyfforddiant ar ddysgu'r disgyblion. At ei gilydd, nid yw mentoriaid yn canolbwyntio'n ddigon da ar fedrau cynllunio a gwerthuso athrawon. Mae gormod o'r adborth yn canolbwyntio ar agweddau yn unig, fel rheolaeth ystafell ddosbarth a chydymffurfio â strategaethau ysgol neu adrannol, ac nid ar sut i gynllunio ar gyfer dysgu a deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae mwyafrif o fentoriaid yn darparu camau nesaf a meysydd i'w datblygu defnyddiol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio adborth llafar i sbarduno myfyrwyr i ystyried trefn y dysgu a'u cynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddilyniant, er enghraifft ym medrau llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, mae lleiafrif o dargedau a osodir ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn arwynebol neu nid ydynt yn fanwl gywir, felly maent yn aml yn ei chael yn anodd eu cymhwyso mewn gwarsi yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae mentoriaid yn nodi cryfderau myfyrwyr a'u meysydd i'w datblygu yn briodol wrth arsylwi gwarsi, ond ambell dro, nid ydynt yn nodi diffygion allweddol yn addysgu a chynnydd myfyrwyr, ac mae ychydig ohonynt yn rhy hael yn eu hasesiadau. Nid yw lleiafrif ohonynt yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon da o sut i roi adborth dros gyfnod yn erbyn ystod y safonau oherwydd eu bod yn ansicr ynglŷn â sut i werthuso cynnydd myfyrwyr.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad:**

Caiff yr agweddau a'r ymddygiadau sy'n ymgorffori'r gwerthoedd craidd o ran beth mae'n ei olygu i fod yn weithiwr addysgu proffesiynol eu hyrwyddo'n dda mewn llawer o agweddau ar y rhaglen. Ceir cyfleoedd pwrpasol i fyfyrwyr gydweithio â'u cyfoedion i rannu eu profiadau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, tra'n datblygu perthnasoedd gweithio cryf ag ymarferwyr eraill mewn ysgolion hefyd.

Mae'r rhaglen yn darparu ystod eang o gyfleoedd i fyfyrwyr fod yn ymarferwyr meddylgar a myfyriol. Er enghraifft, mae myfyrwyr yn cymryd rhan mewn ymarferion addysgu tîm fel rhan o'r sesiynau a arweinir yn y brifysgol lle gallant brofi a thrafod gwahanol dulliau. Mae'r profiad 'cyfoethogi' yn darparu cyfleoedd buddiol i fyfyrwyr ddatblygu dealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau proffesiynol fel athrawon. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cynllun y rhaglen yn rhoi sylw digonol i sicrhau bod myfyrwyr yn bodloni safonau proffesiynol arweinyddiaeth, cydweithio, arloesi a dysgu proffesiynol yn gadarn.

Mae'r rhaglen yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant yn llwyddiannus i ddarllen yn ehangach a datblygu dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n gysylltiedig â'u haddysgu. Mae hyn yn cynnwys deall moeseg gwneud ymchwil mewn ysgolion. Mae'r rhaglen yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ystyrion i fyfyrwyr ymgymryd â phrosiectau ymchwil ac ymholi i gefnogi eu dealltwriaeth o wahanol ddulliau addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw llawer o athrawon dan hyfforddiant yn gwneud cysylltiadau digon cryf rhwng theori ac arfer yn eu haddysgu o ddydd i ddydd.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu system olrhain addas sy'n ei galluogi i fonitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant unigol a chynnydd grwpiau, wrth iddynt symud trwy'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr y mae eu presenoldeb yn destun pryder. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain yn briodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg. Ceir proses glir ar gyfer nodi'r myfyrwyr hynny sydd angen y cymorth ychwanegol hwn, a chynigir darpariaeth fuddiol a thargedig i fyfyrwyr.

Ar draws y bartneriaeth, mae tiwtoriaid cyswllt yn gweithio'n dda ag ysgolion i gynorthwyo myfyrwyr sy'n achosi pryder ar eu profiad ysgol. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, maent yn helpu mentoriaid ac uwch fentoriaid i roi cynlluniau cymorth ar waith sy'n mynd i'r afael â phryderon yng nghynnydd myfyrwyr. Ceir trefniadau priodol ar gyfer sicrhau addasrwydd athrawon dan hyfforddiant i ymarfer, fel rheoli eu hymddygiad.

Mae'r rhaglen yn cynnig ystod o adnoddau buddiol i gefnogi lles myfyrwyr a'u dewisiadau ynghylch ffordd o fyw, gan gynnwys adnoddau ar-lein a gwasanaethau yn y brifysgol. Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi datblygu cyfres o 'sesiynau gwirio' lles ar gyfer myfyrwyr yn ystod eu profiad ysgol terfynol. Mae hyn yn darparu llwybr gwerthfawr o gymorth ychwanegol ar gyfer y rhai sydd ei angen. Pan mae arfer ar ei orau, mae tiwtoriaid personol yn darparu lefel dda o gymorth unigol tra bydd myfyrwyr yn dilyn y rhaglen. Fodd bynnag, mae lleiafrif o fyfyrwyr yn rhannu pryderon parhaus nad eir i'r afael â'u hanghenion lles yn ddigonol. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys baich gwaith, dyrannu lleoliad a phellteroedd teithio i ysgolion.

Mae'r brifysgol yn cynnig systemau cymorth wedi'u cyfeirnodu'n glir i athrawon dan hyfforddiant sy'n datgan bod ganddynt anabledd neu angen ychwanegol. Mae prosesau clir i wneud addasiadau rhesymol a chynorthwyo myfyrwyr i fanteisio ar y lwfans i fyfyrwyr anabl, lle bo'n briodol. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i ennill cymorth academaidd ychwanegol priodol. Fodd bynnag, nid yw prosesau'r brifysgol ar gyfer cytuno ar ba addasiadau rhesymol y dylai ysgolion eu gwneud wedi'u datblygu'n ddigonol, sy'n arwain at anghysondebau yn y ddarpariaeth ar gyfer y myfyrwyr hynny ag anghenion ychwanegol. Er bod tiwtoriaid personol yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon y mae myfyrwyr yn eu codi ynghylch materion yn gysylltiedig â bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu, nid yw ychydig o fyfyrwyr o'r farn yr eir i'r afael â'u pryderon ynghylch lles.

Mae'r rhaglen yn cynnwys sesiynau priodol lle mae partneriaid rhanbarthol yn rhoi arweiniad a chymorth i athrawon dan hyfforddiant ar gyfer eu blwyddyn sefydlu fel athrawon newydd gymhwyso. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oes digon o gymorth ar gael i'w cynorthwyo wrth iddynt wneud eu dewisiadau gyrfa, er enghraifft wrth wneud cais am swyddi a pharatoi ar gyfer cyfweiliadau.

At ei gilydd, mae diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid yw'n destun pryder sylweddol. Mae'r bartneriaeth yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelu yn gysylltiedig ag amddiffyn plant. Mae gan y brifysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer gwirio addasrwydd staff a myfyrwyr, yn ogystal â chynnal cofnod trylwyr o'r gwiriadau hyn. Mae'n cynnig hyfforddiant cynhwysfawr i fyfyrwyr am amddiffyn plant cyn profiad ysgol. Ceir arweiniad clir i sicrhau bod ysgolion yn darparu briffiau priodol ar bolisiau a gweithdrefnau i fyfyrwyr ar ddechrau pob profiad yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ysgolion bob amser yn darparu gwybodaeth ddigonol i fyfyrwyr am eu prosesau diogelu.

Mae'r rhaglen yn darparu cyfleoedd buddiol i fyfyrwyr fyfyrion feirniadol ar faterion proffesiynol ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n effeithio ar ddysgu'r disgyblion, er enghraifft tegwch, amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Er bod y rhaglen yn ymdrin â'r meysydd hyn yn ystod sesiynau a addysgir ac yn ystod wythnosau myfyrion, megis dechrau datblygu y mae fframwaith gwrth-hiliaeth y bartneriaeth ar gyfer AGA.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Cynlluniwyd y bartneriaeth gyda gweledigaeth glir i gyflwyno model AGA integredig gyda phrofiadau yn y sectorau cynradd ac uwchradd, i gefnogi medrau ymchwil ac ymholi myfyrwyr, a hyrwyddo'r Gymraeg mewn addysg. Mae'r weledigaeth hon yn treiddio trwy lawer o ddarpariaeth y bartneriaeth. Fodd bynnag, ers ei ffurfio yn 2018-2019, mae'r bartneriaeth wedi wynebu ansicrwydd sylweddol. Mae cyfyngiadau'r pandemig, cyfraddau recriwtio isel, a newidiadau i stiwardiaeth y rhaglen wedi cyflwyno heriau y mae'r bartneriaeth wedi'i chael yn anodd eu rheoli, yn enwedig o ran cyfranogiad ysgolion arweiniol. O ganlyniad, mae gweithio mewn partneriaeth yn wan, ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar ansawdd y profiadau dysgu a deilliannau myfyrwyr.

Sefydlwyd y bartneriaeth gyda strwythurau, prosesau a systemau arweinyddiaeth clir a rhesymol. Mae staff y brifysgol a chynrychiolwyr o'r ysgolion partner amrywiol yn rhannu cyfrifoldebau yn briodol ar draws y grwpiau arweinyddiaeth, ac mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolaeth o blith uwch staff y brifysgol. Ceir memorandwm dealltwriaeth tra ystyriol sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau aelodau cyfansoddol y bartneriaeth. Ceir gweithdrefnau priodol ar gyfer dewis a dad-ddewis ysgolion arweiniol. Mae bron pob un o'r partneriaid wedi ymrwmo i gynnal y bartneriaeth yn esmwyth, ac maent yn gadarnhaol ynglŷn â'u hymnglymiad a chydweithio. Mae'r bwrdd atebolrwydd strategol yn dechrau sefydlu prosesau i fesur cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol priodol. Mae'n dechrau cynnal gweithgareddau monitro sy'n canolbwyntio ar ansawdd. Mae'r grŵp rheoli gweithredol yn cefnogi rhedeg y rhaglen yn esmwyth. Mae'n dechrau gweithredu yn ôl yr angen i fynd i'r afael â materion perfformiad cyn iddynt ddwysáu. Fodd bynnag, nid yw'r grwpiau arweinyddiaeth yn cyflawni eu hamcanion fel yr amlinellir yn y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer y bartneriaeth ar hyn o bryd. Nid yw'r bwrdd atebolrwydd strategol yn ystyried y cryfderau a'r gwendidau mewn deilliannau a darpariaeth yn ddigon da i ysgogi gwelliant neu osod cyfeiriad strategol y bartneriaeth yn effeithiol. Ar hyn o bryd, ceir llif annigonol o wybodaeth rhwng y grwpiau arweinyddiaeth i sicrhau bod arweinyddiaeth gyffredinol y bartneriaeth yn canolbwyntio ar faterion allweddol.

At ei gilydd, er bod rolau, cyfrifoldebau a strwythurau atebolrwydd wedi'u hamlinellu'n briodol yn y cytundeb partneriaeth, yn ymarferol, ni chaiff y prosesau hyn eu cynnal yn unol â'r bwriad, yn enwedig o ran yr atebolrwydd am safonau, sicrhau ansawdd a datblygiad mentoriaid. Yn ychwanegol, nid yw cyfathrebu ar draws y bartneriaeth yn ddigon effeithiol. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion clwstwr ac ychydig o ysgolion arweiniol yn sicr ynghylch rolau a chyfrifoldebau staff ysgol sy'n ymwneud ag AGA.

Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn gadarnhaol i'r adborth o werthuso allanol. Mae hyn yn dechrau ysgogi arweinwyr ar draws y bartneriaeth, ond nid yw wedi cael effaith sylweddol ar effeithiolrwydd arweinyddiaeth ar y cyd. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth yn dechrau datblygu gweithio clwstwr ar draws grwpiau o ysgolion i gryfhau ei gwaith. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn. Nid yw rôl yr ysgol arweiniol a'i chwstwr mewn meysydd allweddol, fel sicrhau ansawdd profiadau a deilliannau myfyrwyr, yn ddigon effeithiol i gefnogi datblygiad y bartneriaeth.

Mae uwch arweinwyr y brifysgol yn dangos ymrwymiad mawr i'r bartneriaeth, er gwaethaf y cyfraddau recriwtio isel ar hyn o bryd. Mae strwythurau llywodraethu yn gadarn a buddiol. Ceir cyfathrebu gwerthfawr rhwng y bartneriaeth a Chyngor y Brifysgol, fel bod y Cyngor yn ymwybodol o faterion allweddol sy'n ymwneud â'r bartneriaeth. Mae aelodau'r Cyngor yn barod i herio'r bartneriaeth a bod yn ffrind beirniadol, er enghraifft cwestiynu effeithiolrwydd y rolau y mae ysgolion yn ymgymryd â nhw wrth arwain y rhaglen ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei derbyn bob amser yn adlewyrchu diffygion mewn meysydd pwysig o waith y bartneriaeth.

Mae'r brifysgol yn casglu ystod addas o dystiolaeth, gwybodaeth ac adborth buddiol am ei gwaith ar ran y bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys adborth gan fyfyrwyr ac arholwyr allanol, ac adolygiadau fel yr adolygiad ansawdd adrannol. Mae'r trosolwg o ddeilliannau myfyrwyr fel rhan o broses adrodd flynyddol y bartneriaeth yn glir a chryno. Fodd bynnag, mae cyfraniad yr ysgolion arweiniol at y broses adrodd hon yn gyfyngedig.

Mae sylwadau'r bartneriaeth am hunanwerthuso yn crynhoi'r materion a godwyd yn yr adroddiad blynyddol yn briodol. Mae arweinwyr yn nodi camau nesaf ymarferol ac uniongyrchol neu'n awgrymu monitro ac ystyried materion ymhellach. Trwy gydol yr adroddiad blynyddol, nodir camau gweithredu, a chaiff y rhain eu crynhoi mewn matrices defnyddiol gyda pherchnogion dynodedig a graddfeydd amser bras ar gyfer eu cwblhau. Er bod llawer o feysydd i'w datblygu yn cael eu nodi, ni weithredir yn unol ag ychydig o faterion pwysig a dybryd gyda digon o frys, gan gynnwys pryderon sy'n cael eu codi gan fyfyrwyr. Yn benodol, nid yw'r bartneriaeth wedi gweithredu'n ddigon cyflym i fynd i'r afael ag agweddau ar y rhaglen sy'n effeithio ar les myfyrwyr, neu'r angen i ailedrych ar gyfrifoldebau'r ysgolion arweiniol, fel yr amlinellir yn y memorandwm dealltwriaeth. Mae hyn yn wendid sylweddol.

At ei gilydd, nid yw'r drefn ar gyfer gwerthuso gwaith y bartneriaeth o fewn y brifysgol ac ar draws yr ysgolion arweiniol a'r ysgolion clwstwr yn ddigon trylwyr. Nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar effaith, a chyflwynir canfyddiadau'n rhy aml fel disgrifiad o'r camau a gymerwyd. Yn benodol, er gwaethaf y cylch gwaith sydd wedi'i amlinellu'n glir, nid yw'r Grŵp Sicrhau Ansawdd a Gwella yn cyflawni'r rôl hon yn ddigon da. Nid yw'r drefn ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig addysgu, mentora ac arweinyddiaeth ar draws y bartneriaeth, yn ddigon trylwyr ar



hyn o bryd. O ganlyniad, mae gwerthusiad y bartneriaeth o'r meysydd hyn yn aml yn rhy gadarnhaol. Hefyd, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth neu'r arweinyddiaeth ar gynnydd a deilliannau myfyrwyr yn ddigon da.

Nid yw'r cysylltiad rhwng hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon cryf. Nid yw arweinwyr yn ystyried canfyddiadau hunanwerthuso yn ddigon da i'w cynnwys mewn blaenoriaethau strategol trosfwaol. Ar y cyfan, nid yw cynllunio ar gyfer gwella yn cynnwys targedau neu gerrig milltir i fonitro cynnydd yn eu herbyn. Yn ei hanfod, nid yw'n cynnwys mesurau perfformiad addas i alluogi arweinwyr i olrhain cynnydd dros gyfnod neu werthuso effaith unrhyw waith a wneir. Nid yw amcanion yn cynnwys digon o eglurder na ffocws, ac mae diffyg meini prawf llwyddiant i alluogi arweinwyr i werthuso cynnydd yn gywir. Mae ansawdd gwael y cynllunio yn rhwystro gallu arweinwyr i ysgogi gwelliant mewn llawer o feysydd pwysig.

Mae'r Ysgol Addysg yn darparu ystod gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol i diwtoriaid AGA, gan gynnwys y rhai a nodwyd trwy eu harfarniad blynyddol. Maent yn cael amser neilltuedig ar gyfer eu gweithgareddau ymchwil, a cheir llwybr dilyniant cynlluniedig i weithio tuag at gymhwyster Doethur Astudiaethau Proffesiynol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfle iddynt ddatblygu eu medrau arwain i'w cynorthwyo yn eu rolau AGA.

Mae'r bartneriaeth yn cefnogi rhwydweithiau ymchwil ar y cyd â phartneriaid mewn ysgolion a phrifysgolion ledled Cymru yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad staff mewn prosiectau am effaith pandemig COVID-19, agweddau ar Gwricwlwm i Gymru a'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon. Mae hyn yn helpu staff i ddilyn hynt a helynt ymchwil gyfredol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a chyfrannu ati. Caiff ychydig o fentoriaid ac aelodau staff eraill mewn ysgolion partneriaeth eu cynnwys mewn prosiectau ymchwil cenedlaethol gan gydweithio â staff partneriaeth. Mae hyn yn eu helpu i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant â'u haseiniadau yn seiliedig ar ymholi yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn sicrhau bod staff mewn ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon da o'r rhaglen a addysgir, gan gynnwys ymagweddau at ymchwil ac ymholi.

Mae staff y brifysgol wedi creu set o adnoddau ar-lein defnyddiol i helpu athrawon i feithrin eu medrau ymchwil ac ymholi. Caiff staff mewn ysgolion partneriaeth gyfle i elwa ar raglen dysgu proffesiynol ddynodedig ar arweinyddiaeth ymchwil, a hefyd seminarau ar weithgarwch ymchwil a ddarperir gan rwydweithiau tystiolaeth gydweithredol. Mae'r staff prin mewn ysgolion sy'n ymgysylltu â'r seminarau hyn yn dilyn hynt a helynt gweithgarwch ymchwil genedlaethol, a gallant gynorthwyo eu hathrawon dan hyfforddiant yn well â chanfyddiadau ar Gwricwlwm i Gymru, er enghraifft.

Yn ddiweddar, mae'r bartneriaeth wedi cyflwyno ymagwedd newydd yn seiliedig ar ymchwil at ddatblygu mentoriaid. Mae wedi'i chynllunio i helpu mentoriaid i gynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i fyfyrion feirniadol ar effaith eu haddysgu ar ddysgu disgyblion. Fodd bynnag, mae llawer o fentoriaid ond wedi derbyn hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar drefniadau gweithredol nad yw'n datblygu eu medrau mentora yn ddigon da. Hefyd, nid yw'r hyfforddiant yn darparu ar gyfer mentoriaid â gwahanol lefelau o brofiad. Mae presenoldeb mewn sesiynau dysgu proffesiynol wyneb yn wyneb a fforymau ar-lein mentoriaid yn wael ac nid yw prosesau ar gyfer sicrhau presenoldeb neu gymorth dal i fyny yn drylwyr. Ychydig o

fentoriaid yn unig sydd wedi defnyddio'r deunyddiau dysgu proffesiynol i fentoriaid sydd ar gael ar-lein.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer sicrhau ansawdd a rhoi adborth i fentoriaid ar eu harfer trwy gysylltu â thiwtoriaid cyswllt yn rhy amrywiol. Ni chaiff ysgolion arweiniol a llawer o uwch fentoriaid eu cynnwys yn rheolaidd mewn sicrhau ansawdd neu ddatblygu arfer mentoriaid. Nid yw llawer o fentoriaid yn derbyn digon o adborth gan uwch fentoriaid neu gan rai eraill yn y bartneriaeth i'w helpu i ddatblygu eu harfer. Nid yw rôl yr ysgolion arweiniol mewn cynllunio a chyfrannu at y dysgu proffesiynol ar gyfer mentoriaid mewn ysgolion wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae gwaith diweddar i ddatblygu arfer mentora ar draws clystyrau o ysgolion yn y bartneriaeth yn dechrau rhoi dealltwriaeth well o arfer i arweinwyr ar draws ysgolion partner. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw prosesau'r bartneriaeth ar gyfer gwerthuso'i chynnig dysgu proffesiynol ar gyfer staff y brifysgol a mentoriaid mewn ysgolion, a'i effaith ar ansawdd y cymorth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant, wedi'u datblygu'n ddigonol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Yn ystod arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinwyr y bartneriaeth ac addysgwyr athrawon unigol i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag uwch arweinwyr y brifysgol a llywodraethwyr i drafod cymorth y brifysgol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon
- yn cyfarfod ag uwch fentoriaid a mentoriaid am elfennau yn yr ysgol y rhaglen a'u hasesiad o athrawon dan hyfforddiant
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant i drafod eu cynnydd a chael eu safbwyntiau am agweddau amrywiol ar y bartneriaeth
- yn cyfarfod ag athrawon dan hyfforddiant mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr myfyrwyr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau dysgu ac yn cynnal amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi myfyrwyr yn dysgu a gweld staff yn addysgu yn yr ysgol ac yn y brifysgol
- yn arsylwi sampl o fyfyrwyr yn addysgu yn ystod eu profiad ysgol terfynol pan fyddant yn agos at gyflawni Statws Athro Cymwys (SAC)
- yn arsylwi sampl o fentoriaid yn adrodd yn ôl i fyfyrwyr am eu haddysgu yn craffu ar aseiniadau, myfyrdodau a chynlluniau gwersi myfyrwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a grwpiau arwain, gwybodaeth am les myfyrwyr, gan gynnwys diogelu myfyrwyr a disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff
- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i fyfyrwyr a'r holiadur i staff ac yn ystyried eu safbwyntiau trwy eu hymatebion i'r holiadur

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994, a osodwyd trwy baragraff 13 Atodlen 14 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/09/2023